# Cronfa Gynnudd y Synod

Grantiau i gefnogi Eglwysi a Chylchdeithiau mewn mentrau i frwydro yn erbyn Newid Hinsawdd - Diweddarwyd Hydref 2023

Mae Pwyllgor Cynlluniau a Grantiau'r Synod yn cydnabod pwysigrwydd yr Eglwysi a'r aelodau, ar y cyd ac fel unigolion, yn gweithredu fel rhan o'u hymrwymiad i stiwardiaeth y greadigaeth. Mae'n galonogol bod rhai eglwysi a Chylchdeithiau eisoes yn cymryd camau i ddod yn Eglwysi Eco neu'n syml i leihau eu hôl troed carbon cyfunol. Mae'r Synod yn annog eglwysi i ymgysylltu ag Eco Church.

Gallai'r mathau o fentrau gynnwys: digwyddiadau codi ymwybyddiaeth neu ymgyrchoedd yn y gymuned ar faterion amgylcheddol; cyfranogiad pobl ifanc mewn gweithredu amgylcheddol; creu gerddi; cynyddu bioamrywiaeth ar dir eglwysi; mentrau lleihau ynni ar raddfa fach - goleuadau LED, inswleiddio, newid offer o nwy i drydan gwyrdd, a gosod paneli ffotofoltäig.

Gall addasiadau strwythurol neu adeiladau mwy ar sail amgylcheddol hefyd fod yn berthnasol i'r SS&GC dan gynlluniau adeiladu lle mae hyd at 10% o'r gost (uchafswm o £30k) ar gael.

Dylai prosiectau ddilyn y canllawiau hyn.

Canllawiau

Dylid cyflwyno cynigion ar y ffurflen gais SAF/CGS (Ar gael ar wefan y Synod neu ar gais). Dylai'r cais gynnwys:

- Cynllun gydag amcanion a gweithgareddau clir (ee faint o garbon fydd yn cael ei arbed, neu faint o allgymorth neu ymgysylltu)
- Sut bydd llwyddiant y prosiect yn cael ei fonitro.
- Cyllidebau sy'n nodi'r costau ac unrhyw ffynonellau arian ychwanegol neu godi arian
- Dylai'r cynigion gael eu cymeradwyo gan weithdrefnau cynllunio ac ariannol yr eglwys ei hun – a fyddech cystal â chynnwys dyddiad y caniatâd hwnnw
- Hysbysiad o gais i'r Gylchdaith (ar gyfer cydgysylltu)

Mae grantiau hyd at uchafswm o £6000 ar gael:

- Ceisiadau am lai na £1000 yn derbyn 100%
- Gall ceisiadau dros £1000 dderbyn £1000 ynghyd â 50% o wariant dros £1000.

**Gofynion Adrodd yn ôl**

Dylai eglwysi sy'n derbyn grantiau gynhyrchu adroddiad byr yn nodi canlyniadau'r prosiect ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar ôl 12 mis. Bydd hyn yn galluogi'r pwyllgor i werthuso effeithiolrwydd y cynllun.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Gill Peace: peacelossl@btinternet.com